



Diploma Lefel 3 AAT mewn Cyfrifyddu (Rhan-Amser)

Mae cyrsiau AAT (Cymdeithas y Technegwyr Cyfrifyddu) a gynigir yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ennill profiad ac i symud ymlaen yn eu gyrfaedd cyfrifyddu. Mae cyrsiau'n cynnwys tair lefel. Mae pob lefel yn cynrychioli cymhwyster ynddo'i hun.

Mae myfyrwyr yn derbyn tystysgrif ar gyfer pob lefel a gyflawnir. Mae angen cofrestru gydag AAT a thelir cost hyn yn uniongyrchol i'r corff proffesiynol.

Mae'r unedau'n cynnwys Cyfrifeg Rheolaeth Gymhwysol, Drafftio a Dehongli Datganiadau Ariannol a Systemau a Rheolaeth Fewnol, ynghyd â 2 uned ychwanegol sy'n cynnwys Archwilio a Sicrwydd a Threth Bersonol a fydd yn darparu dealltwriaeth dda i'r gweithiwr cyfrifyddu newydd neu'r rhai sy'n dymuno mynd i mewn i'r amgylchedd cyfrifyddu.



Gofynion Mynediad

Gofynnir am gymwysterau pwnc penodol Bagloriaeth Genedlaethol Cymru a TGAU. Cymhwyster Lefel 2 mewn Cyfrifeg.

Mae angen cyflawni Lefel 3 ymlaen llaw neu brofiad / cymwysterau perthnasol i fynd i'r lefel astudio hon.

Rhagolygon Gyrfa

Mae'r cymwysterau hyn wedi'u bwriadu ar gyfer dysgwyr dros 16 oed mewn ystod eang o leoliadau ond yn bennaf yn gweithio mewn lleoliad cyfrifyddu neu ariannol. Dilyniant i ACCA neu CIMA.

Modiwlau'r cwrs

Wedi'i gyflwyno trwy gydol y flwyddyn academiaidd am 1 diwrnod yr wythnos.

Mae'r cwrs hwn yn rhedeg ar ddydd Mercher rhwng 9:00 am a 17:00 pm.

Asesiad

Arholiadau ar-lein wedi'u gosod yn allanol ynghyd ag arholiad synoptig sy'n cynnwys pob maes astudio.



GRŴP COLLEGAU **NPTC** GROUP OF COLLEGES

Datblygu Busnes
Business Development

A graphic of blue smoke or mist trailing from the right side of the page towards the center.

Inspiring Learning,
Enriching Lives, Delivering Success

Costau Ychwanegol

Ffi arholiad £350.

DULL ASTUDIO

PT

LLEOLIAD

Coleg Bannau Brycheiniog - 01686 614400

Coleg Castell-nedd - 01639 648000

Coleg Y Drenewydd - 01686 614200

HYD Y CWRS

1Y

FFIOEDD

19/20 fees: £600

business@nptcgroup.ac.uk | www.nptcgroup.ac.uk/business

 [nptc_business](https://twitter.com/nptc_business)

 [nptcbusiness](https://facebook.com/nptcbusiness)

 [business-nptcgroup](https://linkedin.com/company/business-nptcgroup)